**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**26 GORFFENNAF 2022**

Cofnodion Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mawrth 26 Gorffennaf 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Bill Crease, Paul Cunningham, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Gladys Healey, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Ray Hughes, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Steve Copple, Jean Davies a Hilary McGuill

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygiad Sefydliadol), Ymgynghorydd Perfformiad Strategol a’r tîm Gwasanaethau Democrataidd.

## 18. DATGAN CYSYLLTIADAU

Yn ystod y trafodaethau ar gofnod rhif 25 (cwestiynau’n ymwneud â thai), datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel tenant tŷ Cyngor.

## 19. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 24 Chwefror a 24 Mai 2022.

Cofnodion 24 Mai 2022 - Cywirdeb.

Cofnod rhif 4: Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai anghysondebau wrth gofnodi’r bleidlais i benodi Is-Gadeirydd yn cael eu cywiro. Nodwyd hefyd y byddai cyfeiriad anghywir at y Cynghorwyr Richard Lloyd a Richard Jones ar yr eitem honno hefyd yn cael ei ddiwygio.

Wrth ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Bernie Attridge am gael rhestr o bleidleisiau Aelodau ar yr eitem honno, awgrymodd y Prif Swyddog

(Llywodraethu) y dylid gohirio cymeradwyo'r cofnodion diwygiedig tan y cyfarfod nesaf.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Roberts eu gohirio ac eiliwyd gan y Cynghorydd Richard Jones.

Ar Faterion Cyfansoddiadol, gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers am i gofnod 7(i) gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ian Roberts, wedi pasio Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu i'r grŵp Annibynnol. Wrth ymateb, dywedodd y Cynghorydd Roberts ei fod wedi pasio Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu "i grŵp Annibynnol", fel oedd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol. Cefnogwyd ei sylwadau gan y Cynghorydd Chris Dolphin.

Ar gofnod 7(v), Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Sefydlog, cyfeiriodd y Cynghorydd Attridge at y geiriad ar y ddau enwebiad gwahanol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Pwyllgor Cynllunio. Gofynnodd am i'r cofnodion gael eu newid i ddangos bod y rhain yn enwebiadau ar wahân ganddo ef a'r Cynghorydd Ian Roberts, yn hytrach nag enwebiad ar y cyd.

Ar gofnod 7(v), eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd newydd wedi cael ei gynnwys ar y rhaglen heddiw oherwydd amryfusedd, a byddai'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Fel diwygiad i gofnod 7(iii), eglurodd y Cynghorydd Attridge ei fod wedi cynnig y Cynghorwyr Antony Wren a Bill Crease ar gyfer y Pwyllgor Safonau (ac wedi tynnu'r ail enw yn ôl wedyn, fel y nodir yn gywir yn y cofnodion).

Ar gofnod 6, cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at ei sylwadau ar gydnabod gwasanaeth cyn Gynghorwyr gan ddweud y byddai tystysgrif fod wedi bod yn deyrnged fwy priodol na bathodyn efallai.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Attridge gofnodion 15 a 24 Chwefror 2022 , gan nodi y byddai cofnodion 24 Mai 2022 yn dod yn ôl gerbron y cyfarfod nesaf. O'i roi i bleidlais, cytunwyd â hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo cofnodion 15 a 24 Chwefror 2022 fel cofnod cywir; a

(b) Diwygio cofnodion 24 Mai 2022 a'u cyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor i'w cymeradwyo.

## 20. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Wrth gyflwyno ei chyhoeddiadau, rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r digwyddiadau yr oedd wedi eu mynychu rhwng 25 Mai a 25 Gorffennaf 2022.

## 21. DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorwyr Glyn Banks a Gina Maddison ddeiseb ar ran preswylwyr yng Nglyn-yr-afon yn ymwneud â phryderon am ddiogelwch y ffordd, a diolchwyd i'r swyddog Gwasanaethau Stryd, Lee Shone am ei ran ynddo.

Cyflwynwyd deiseb gan y Cynghorydd Gillian Brockley hefyd ar ran preswylwyr lleol i wrthwynebu'r datblygiad ar ystâd Gladstone a gofynnodd am gefnogaeth yr holl Aelodau.

## 22. CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Cyngor drafft ar gyfer 2022/23, oedd wedi'i adolygu a'i adnewyddu o ran ei gynnwys yn dilyn yr ymateb i'r pandemig a'r Strategaeth Adfer. Roedd fframwaith y Cynllun yn cynnwys chwe thema oedd yn cyd-fynd â'r Amcanion Lles ac a oedd yn parhau i gymryd agwedd hirdymor at adferiad, uchelgais a gwaith dros y flwyddyn nesaf. Wedi i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ymgynghori arno, roedd Rhan 1 yn adlewyrchu blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer 2022/23 ac roedd yn cynnwys eitem ychwanegol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl. Byddai'r Cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi ar y wefan wedi i'r Cyngor ei fabwysiadu.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol fod Rhan 1 yn nodi uchelgeisiau lefel uchel ar gyfer 2022/23 a bod Rhan 2 yn nodi camau gweithredu, tasgau a mesurau cefnogol gyda manylion am sut y byddai cyflawniadau'n cael eu mesur a'u gwerthuso. Roedd Rhan 3 yn dangos sut oedd themâu'n cyd-fynd â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu, ble byddai cynnydd yn cael ei fonitro.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones fod gosod mwyafrif y cerrig milltir ar gyfer mis Mawrth 2023 yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fonitro cynnydd rheolaidd. Wedi trafod hyn yn flaenorol, roedd swyddogion eisoes wedi cytuno i adolygu cerrig milltir cyn cyhoeddi'r Cynllun. Tynnodd sylw at bwysigrwydd Cynllun y Cyngor yng nghyd-destun cynllunio ariannol a'r angen i sicrhau y gellir mesur eitemau ychwanegol. O ran y flaenoriaeth 'amgylchedd lleol diogel, glân ac wedi'u cysylltu'n dda', gofynnodd a fyddai gwaith gyda'r ddwy dref a nodwyd yng Nghynllun eleni hefyd yn dod â budd i drefi eraill drwy gydol y cyfnod.

Wrth gynnig mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2022-23, diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i swyddogion am eu holl waith. Er mwyn ymdrin â sylwadau'r Cynghorydd Jones, awgrymodd y dylid gofyn i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu adolygu'r cerrig milltir ar gyfer eu meysydd penodol ar y cyd ag unrhyw argymhellion gan y Prif Swyddogion. Ar ran y grŵp Llafur, diolchodd i'r staff am eu hymroddiad a'u cryfder wrth fodloni heriau yn ystod y cyfnod hwn o Gynllun y Cyngor.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Billy Mullin.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at ddiffiniad yr is-flaenoriaeth Tlodi Tanwydd o aelwydydd â chostau tanwydd uwch na'r cyfartaledd a gofynnodd a oedd hyn yn cynnwys pob aelwyd yn y sefyllfa hon neu ddim ond y rhai sy'n

gysylltiedig â thai fforddiadwy a hygyrch. O ran risgiau cysylltiedig, holodd am y gostyngiad gwaelodlin mewn risgiau o gofio'r tebygrwydd y byddai mwy o aelwydydd yn cael eu heffeithio a gofynnodd sut y byddai ffrydiau ariannu yn cael eu blaenoriaethu oherwydd nad oedd cyllid ar gael fel y bu i ddarparu prosiectau tlodi tanwydd. O ran y flaenoriaeth Sector Rhentu Preifat i godi safonau mewn rheoli a chyflwr y tai, gofynnodd am sicrwydd na fyddai darpariaeth adnoddau'n dyblygu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan Rentu Doeth Cymru.

O ran Rhan 1 Cynllun y Cyngor, cynigiodd y Cynghorydd David Coggins Cogan y dylid newid y diffiniad o Dlodi Tanwydd yn y ddogfen fel a ganlyn: '*Tlodi Tanwydd: Aelwydydd sy'n dioddef tlodi oherwydd eu costau tanwydd'* i adlewyrchu ystod ehangach y rhai sy'n cael eu heffeithio gan gynnydd parhaus mewn prisiau ac nid dim ond y rhai â chostau 'uwch na'r cyfartaledd'.

Wedi i'r Cynghorydd Andrew Parkhurst ei eilio, derbyniwyd y diwygiad gan y Cynghorwyr Roberts a Mullin.

Er bod y Cynghorydd Richard Jones yn cydnabod y bwriad, holodd a oedd yn bosibl newid geiriau'r diffiniad oedd wedi ei osod yn genedlaethol. Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai swyddogion yn ystyried ble y gellid ymgorffori'r newid yng Nghynllun y Cyngor.

Wrth gefnogi, cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Banks at aelwydydd oedd wedi'u heffeithio gan gynnydd mewn prisiau olew.

Wrth ymateb i sylwadau blaenorol, atgoffodd y Cynghorydd Paul Cunningham Aelodau bod cynnydd Cynllun y Cyngor yn destun craffu manwl rheolaidd.

Dywedodd y Cynghorydd Bill Crease fod angen i gerrig milltir fod yn realistig a chyraeddadwy.

Gan fod yr argymhelliad wedi'i gynnig a'i eilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Mabwysiadu Rhan 1 Cynllun y Cyngor 2022-23, yn amodol ar (i) adolygu'r dyddiadau targed ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac (ii) ailddiffinio Tlodi Tanwydd fel nad yw'n gyfyngedig i'r rhai sydd ar incwm isel (os yw'n bosibl).

## 23. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar y cyfrifiad diwygiedig o gydbwysedd gwleidyddol, fel y cytunwyd yn y Cyfarfod Blynyddol, yn ymgorffori'r wybodaeth ddiweddar am grŵp gwleidyddol newydd. Cytunwyd ar y dyraniadau arfaethedig yn y cyfrifiad gan arweinwyr grwpiau, a byddai'n bodloni gofynion cydbwysedd gwleidyddol, gan ddarparu 135 sedd i Aelodau ar draws yr holl bwyllgorau yn seiliedig ar aelodaeth bresennol y grwpiau.

Cafodd Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys manylion dyraniadau seddi arfaethedig ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Ian Roberts a Billy Mullin. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD:**

Cytuno ar y dyraniad cydbwysedd gwleidyddol oedd ynghlwm â'r adroddiad.

## 24. RHYBUDD O GYNNIG

Derbyniwyd Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Bernie Attridge, Helen Brown, Richard Jones, Dale Selvester a Debbie Owen fel a ganlyn:

*"Galwn ar Gyngor Sir y Fflint i ddychwelyd yr holl weithwyr sydd wedi bod yn gweithio gartref yn ystod y pandemig yn ôl i'r gweithle am o leiaf 4 diwrnod yr wythnos waith, yn cynnwys holl gyfarfodydd a phwyllgorau'r Cyngor, gadewch i ni arwain drwy esiampl.*

*Mae cyfathrebu wedi bod yn anodd iawn i aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd, rhaid i ni gael gwell cyfathrebu unwaith eto. Nid oes cyfyngiadau Covid ar waith o gwbl."*

Ar ran y llofnodwyr, cynigiodd y Cynghorydd Attridge y dylid tynnu'r eitem yn ôl am y rhesymau canlynol: (i) y cynsail o ddarparu adroddiad manwl mewn ymateb cyn i Rybudd o Gynnig gael ei glywed a'i ddeall gan Aelodau; (ii) y cynsail o ohirio cyfarfod y Cyngor llawn wrth i arweinwyr grwpiau drafod y Rhybudd o Gynnig; (iii) cyhoeddi adroddiad un ochr yn y parth cyhoeddus cyn cael eglurhad gan y llofnodwyr, sydd wedi arwain at negeseuon e-bost gwarthus yn cael eu hanfon at rai Aelodau Etholedig; a (iv) cais gan Aelod sydd heb ei ateb am restr lawn o swyddi gwag, yn nodi bod 25 swydd wag ar wefan y Cyngor.

Tynnodd y Cynghorydd Attridge y Rhybudd o Gynnig yn ôl am y rhesymau hyn wrth i'r llofnodwyr eraill ac yntau ystyried eu sefyllfa.

## 25. CWESTIYNAU

Roedd tri chwestiwn gan y Cynghorydd Bernie Attridge a dderbyniwyd o fewn y terfyn amser wedi cael eu cylchredeg i Aelodau cyn y cyfarfod:

*"1. A yw'n bosibl i'r Cyngor llawn gael diweddariad brys ar y Costau Cyfalaf i Theatr Clwyd, a faint o arian sydd raid i Gyngor Sir y Fflint ddod o hyd iddo i wneud iddo ddigwydd?*
*2. A yw'n bosibl i ni gael diweddariad brys ar y ganolfan digartrefedd yn Queensferry nad yw wedi cael caniatâd cynllunio, a beth yw cynlluniau Cyngor Sir y Fflint i'w symud a phryd?*
*3. A yw'n bosibl rhoi gwybod ar frys i'r Cyngor llawn pryd fydd staff yn dychwelyd i'r swyddfa?"*

Mynegodd y Cynghorydd Attridge ei siom nad oedd y cwestiynau yr oedd wedi eu cyflwyno wythnosau'n ôl wedi cael eu cynnwys ar y rhaglen ac a anfonwyd at Aelodau dros e-bost y bore hwnnw. Nid oedd yn credu bod ei

gwestiynau wedi cael eu trin yn y ffordd gywir a honnodd nad oedd rhai Aelodau wedi cael cyfle i ddarllen y cwestiynau cyn y cyfarfod gan nad oeddent wedi gallu cael mynediad at eu negeseuon e-bost efallai. Cyfeiriodd at yr arfer hanesyddol pan oedd cwestiynau wedi cael eu cylchredeg yn bersonol yng nghyfarfodydd y Cyngor. Am y rheswm hwnnw, gofynnodd am i'w gwestiynau gael ei hailgyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Caniataodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Attridge gyflwyno cwestiwn brys yr oedd wedi ei gyflwyno y bore hwnnw, ac roedd hithau wedi ceisio eglurhad pellach arno. Darllenodd y cwestiwn fel a ganlyn:

*"Rydym yn ymwybodol o dri newid pwysig ar wahân yn ymwneud â Thai ond yn bennaf i denantiaid Cyngor Sir y Fflint, a'u rhyngweithio ag Aelodau. Ymhlith y materion a nodwyd mae:*

1. *Atal hysbysu Aelodau am denantiaid newydd yn symud i'w ward.*
2. *Defnyddio GDPR fel rheswm i atal Aelodau rhag cynorthwyo tenantiaid Cyngor Sir y Fflint; a*
3. *Hysbysu tenantiaid Cyngor Sir y Fflint yn ddiweddar am newidiadau sylweddol i gytundebau tenantiaeth sy'n effeithio ar bob Tenant, heb roi gwybod i Aelodau, felly nid yw Aelodau'n gallu ateb cwestiynau'r Tenantiaid am y newidiadau hyn. Gan fod y newidiadau hyn yn ymddangos fel awydd i ddatgysylltu'r berthynas rhwng Aelod/Tenant, a all yr Aelod Cabinet Tai gadarnhau'n bendant nad dyma'r achos a'i fod yn ddim byd ond amryfusedd cyfathrebu a dealltwriaeth?"*

Fel Aelod Cabinet Tai ac Adfywio, dywedodd y Cynghorydd Sean Bibby nad oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ac y byddai'r materion a godwyd yn cael eu trafod â'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau).

Ar ôl gofyn am gyngor, datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel tenant mewn tŷ Cyngor.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod yr arfer o rannu cwestiynau a gyflwynwyd ymlaen llaw fel copïau papur yng nghyfarfodydd y Cyngor wedi newid yn ystod y blynyddoedd diweddar oherwydd bod Aelodau'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein drwy gydol y pandemig. Fodd bynnag, cytunodd y byddai'n well eu rhannu dros e-bost ac fel copïau papur mewn cyfarfodydd hybrid pan oedd mwyafrif y cyfranogwyr yn bresennol.

Fel yr awgrymwyd gan y Prif Swyddog, cytunodd y Cynghorydd Attridge y byddai'r ymatebion i'w dri chwestiwn a gyflwynwyd yn flaenorol yn cael eu cylchredeg i bob Aelod a chael eu cynnwys yn y cofnodion. Eglurodd y Cadeirydd y byddai ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn brys hefyd yn cael ei gylchredeg.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cylchredeg ymatebion ysgrifenedig i'r tri chwestiwn a'r cwestiwn brys a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Attridge i bob Aelod.

**26. <u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) na dderbyniwyd yr un cwestiwn. Dywedodd y byddai gwefan y Cyngor yn cael ei diweddaru i adlewyrchu y byddai cwestiynau'n cael eu cyflwyno'n electronig.

**27. <u>AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL</u>**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a gorffennodd am 3.10pm)

**………………………..**

**Y Cadeirydd**